# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i Gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Gorffennaf 3, 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffon Cyswllt** | **32335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Côd Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi** |

1 **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Cytundeb i ymrwymo i'r Côd Ymarfer

2 **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Cais gan Lywodraeth Cymru i bob sefydliad cyhoeddus ymrwymo i'r Côd Ymarfer.

3 **CYFLWYNIAD**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Côd Ymarfer ar gyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Ei nod yw amlygu'r angen, yn ystod pob cam o'r gadwyn cyflenwi, i sicrhau bod arferion cyflogaeth da yn bodoli i'r holl weithwyr sydd yn cyflawni gwaith ar ran y Cyngor. Mae'r Côd yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth y Deyrnas Unedig ar ffurf Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Mae'r Côd yn ymdrin â'r materion cyflogaeth a ganlyn:

- Caethwasiaeth Fodern a thorri hawliau dynol
- Cosb restru
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnydd annheg o gynlluniau mantell a chontractau dim oriau
- Cyflog Byw

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus ymrwymo i'r Côd Ymarfer mewn ymgais i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am y Côd o fewn y Cyngor yn ogystal â gyda chwmnïau a sefydliadau sy'n rhan o gadwyn cyflenwi'r Cyngor.

Er mwyn gweithredu'r ymrwymiadau sydd yn y Côd mae rôl allweddol gan y staff (a'r Aelodau etholedig) sy'n gysylltiedig gyda phrynu nwyddau a gwasanaethau yn ogystal â recriwtio. I'r perwyl hwnnw byddai ymrwymo i'r Côd Ymarfer yn golygu

sicrhau bod y swyddogion a'r Aelodau allweddol hynny yn derbyn hyfforddiant pellach yn y maes hwn.

Cynigir ei bod yn synhwyrol i'r Cyngor ymrwymo i weithio tuag at wireddu holl amcanion y Côd Ymarfer er mwyn sicrhau fod yr arfer gorau yn cael ei ddilyn a'i fod yn chwarae ei ran i ddileu unrhyw arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol a ddaw i'r amlwg pan yn caffael gwaith ar ran pobl Gwynedd.

Mae 12 ymrwymiad yn y Côd ac mae ein Cynllun Gweithredu (Atodiad 1) yn amlygu pa ymrwymiadau y mae'r Cyngor eisoes yn cwrdd a hwynt a pha rai ple bo'r ymrwymiad i'r Côd yn ymwneud a chynnal gwaith pellach. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn mai dechrau'r daith yw'r ymrwymiad i'r Côd Ymarfer ac nid oes disgwyl ein bod yn gallu cyflawni yr holl ddisgwyliadau yn bresennol.

Yn ogystal, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod y Cyngor yn cyhoeddi Datganiad ar ei wefan yn flynyddol, sydd yn adrodd ar ddigwyddiadau o Gaethwasiaeth Fodern / Masnachu Pobl (gweler y datganiad ar gyfer 2017/18 yn Atodiad 2). O ymrwymo i'r Côd Ymarfer, byddai modd cynnwys y cynnydd ar elfennau eraill o'r Côd yn y datganiad blynyddol hwnnw i'r dyfodol.

**CASGLIADAU**

Ar sail yr hyn a nodir yn y Cynllun Gweithredu a'r derbyniad gan Lywodraeth Cymru na fydd unrhyw sefydliad cyhoeddus yn gallu gwireddu'r gofynion yn llawn ar hyn o bryd, argymhellir bod y Cyngor hwn yn ymrwymo i'r Côd Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac hynny fel arwydd clir o'i awydd a'i barodrwydd i gyfrannu at yr agenda bwysig hon.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Pennaeth yr Adran Cyllid:**

Tra'n nodi fod buddion amlwg o ymrwymo i'r Cod Ymarfer, rydym yn rhagdybio na fydd hyn yn ymrwymo'r Cyngor i wariant ychwanegol ac y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn syrthio o fewn cyllidebau adrannau. Bydd unrhyw gais penodol am wariant ychwanegol yn cael ei drin yn y modd arferol.